The Wildlife Trust of South and West Wales
Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru

# Llyn Eiddwen, Ceredigion



Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future

**Reserve description** - National Nature Reserve (NNR) and Site of Special Scientific Interest (SSSI). 55.2 hectares including a 10.5 hectare lake, upland heath, grassland and mire.

**Directions to Llyn Eiddwen** - From Llangwyryfon on the B4576, turn south east on the minor road to Trefenter and the wind farm. Follow the lane through the village and up past the trig point; Llyn Eiddwen will appear below you and to the right.

**To get to the reserve** - Leave cars next to the road, by the cattle grid at SN609673, and enter the reserve at this point.

**Buses** - The Royal Mail provide a limited service (595) to Trefenter. The 585 Aberystwyth/Lampeter bus service also passes through Bronnant regularly, leaving a 4-5 km walk to get to the lake.

**Access notes** - There is one public right of way through the reserve but visitors are welcome to wander. However, the ground can be very wet and wellies are essential if crossing the mire. The reserve is common land so boundaries are not fenced and livestock graze the site freely.

**Your safety** - If walking alone, please tell someone where you are and what time to expect you back. Wear appropriate clothing and footwear, planning ahead for possible changes in the weather. An Ordnance Survey map is always useful for additional information. Please follow the countryside code.

**Disgrifiad o'r warchodfa** - Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). 55.2 hectar, yn cynnwys llyn sy'n 10.5 hectar, rhostir yn yr ucheldir, glaswelltir a chors.

**Cyfarwyddiadau ar gyfer cyrraedd Llyn Eiddwen** - O Langwyryfon ar y B4576, trowch tua'r de ddwyrain ar y ffordd fechan i Drefenter a'r fferm wynt. Dilynwch y lôn drwy'r pentref ac i fyny heibio'r trigbwynt. Bydd Llyn Eiddwen yn ymddangos oddi tanoch ac i'r dde.

**I gyrraedd y warchodfa** - Gadewch eich car wrth ymyl y ffordd, gerllaw'r grid gwartheg yn SN609673, ac ewch i mewn i'r warchodfa yn y fan yma.

**Bysus** - Mae'r Post Brenhinol yn darparu gwasanaeth cyfyngedig (595) i Drefenter. Mae gwasanaeth bws 585 Aberystwyth/Llanbedr Pont Steffan hefyd yn mynd drwy Fronnant yn rheolaidd, ac yna mae'n rhaid cerdded 4-5 km i gyrraedd y llyn.

**Nodiadau mynediad** - Ceir un hawl tramwy drwy'r warchodfa ond mae croeso i ymwelwyr grwydro. Fodd bynnag, gall y tir fod yn wlyb iawn ac mae'n rhaid wrth esgidiau glaw os am groesi'r gors. Mae'r warchodfa'n dir comin ac felly nid oes ffens ar y terfynau ac mae da byw yn pori'r safle'n rhydd.

**Eich diogelwch** - Os ydych yn cerdded ar eich pen eich hun, cofiwch ddweud wrth rywun ble rydych chi a phryd i'ch disgwyl yn ôl. Gwisgwch ddillad ac esgidiau priodol, gan gynllunio ymlaen ar gyfer newid posibl yn y tywydd. Mae map Arolwg Ordnans yn ddefnyddiol bob amser ar gyfer gwybodaeth ychwanegol. Cadwch at y cod cefn gwlad.

**The Wildlife Trust of South and West Wales** works to conserve all forms of wildlife. We manage nearly 100 nature reserves comprising woodlands, meadows, moors, marshes, and islands such as Skomer. We campaign on your behalf against damaging development, provide advice on your land management needs and help people of all ages to understand and enjoy our wildlife.

**You can help**....Volunteers are essential to the Trust. Whatever your interest and ability your spare time is valuable to us.

**Members are vital** in supporting our work. Your contribution makes the Trust even more effective and every member strengthens the voice of the Trust. Join today if you want to help save local wildlife.

For more details of volunteering or joining as a member, call your nearest office;
Tondu, Bridgend 01656 724100
Cilgerran, Cardigan 01239 621600
Or email: info@welshwildlife.org

**Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru** yn gweithio i warchod pob math o fywyd gwyllt. Rydym yn rheoli bron i 100 o warchodfeydd natur sy'n cynnwys coetiroedd, dolydd, rhosydd, corsydd ac ynysoedd fel Sgomer. Rydym yn ymgyrchu ar eich rhan yn erbyn datblygiadau niweidiol, yn darparu cyngor ynghylch eich anghenion rheoli tir ac yn helpu pobl o bob oed i ddeall a mwynhau ein bywyd gwyllt.

**Gallwch chi helpu**....mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i'r Ymddiriedolaeth. Waeth beth yw eich diddordeb a'ch gallu, mae eich amser sbâr yn werthfawr i ni.

**Mae aelodau'n hanfodol** i gefnogi ein gwaith. Mae eich cyfraniad chi yn gwneud yr Ymddiriedolaeth yn fwy effeithiol fyth ac mae pob aelod yn cryfhau llais yr Ymddiriedolaeth. Ymunwch â ni heddiw os am helpu i achub bywyd gwyllt lleol.

Am fanylion pellach am wirfoddoli neu am ymuno fel aelod, ffoniwch eich swyddfa agosaf;
Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr 01656 724100
Cilgerran, Aberteifi 01239 621600
Neu e-bost: info@welshwildlife.org

This leaflet was produced with support from:
Cynhyrchwyd y daflen hon gyda chefnogaeth gan:

Gyda chymorth
Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Supported by the Heritage Lottery Fund

Produced by Fitzpatrick Woolmer Design - 01634 711 771

**www.welshwildlife.org**



Water vole
Llygoden ddŵr

**In the water...**
There are several unusual species of plant that live in the very low nutrient waters of the lake, including water lobelia, shoreweed, quillwort, awlwort and floating water-plantain. All these species benefit from the shallow, unpolluted waters and are known from few other sites in the county. The lake reaches 7 m at its deepest point and is also home to a population of pike. The southern end of the lake is siltier than the north, and is thickly vegetated with bottle sedge and water horsetail.

**On the water...**
The lake is a great place to go birdwatching, especially in the winter when good numbers of wildfowl pass through. Regular winter visitors include whooper swan, teal, mallard, tufted duck, and goldeneye. Recent, more unusual records also include black-throated diver and green-winged teal. Ravens, buzzards and red kite regularly soar overhead and gulls also congregate on the water.

**On the land...**
The banks of Llyn Eiddwen remain a home to the nationally threatened water vole, which has suffered a catastrophic decline in the UK over the last fifteen years. The vegetation is also important in its own right, containing various habitats typical of this part of Wales, including upland heather and acid grassland. The mire, lying where water drains into the northern end of the lake, contains bog asphodel and round-leaved sundew. Traditionally the area was cut for peat, and the once dominant purple moor-grass was also burned regularly. In 1963 this practice ceased, and as a result the heather has now become a more prominent feature of the vegetation.

**Yn y dŵr...**
Ceir sawl rhywogaeth anarferol o blanhigion yn byw yn nyfroedd y llyn, sydd â lefel maeth isel, yn cynnwys lobelia dŵr, beistonnell merllyn, gwair merllyn, mynawydlys dyfrdrig a llyriad arnofiol y dŵr. Mae'r rhywogaethau hyn i gyd yn elwa o ddyfroedd bas y llyn, sydd heb eu llygru, a dim ond mewn ychydig safleoedd eraill yn y wlad maent i'w cael. Mae'r llyn yn 7m ar ei ddyfnaf ac mae hefyd yn gartref i boblogaeth o'r penhwyad. Mae pen deheuol y llyn yn cynnwys mwy o lifwaddod na'r gogledd ac yn drwch o lystyfiant, gyda hesg gylfinfain a marchrawn yr afon.

**Ar y dŵr ...**
Mae'r llyn yn lle gwych i wylio adar, yn enwedig yn y gaeaf pan fydd niferoedd da o adar gwyllt yn mynd heibio. Ymhlith ymwelwyr rheolaidd y gaeaf mae elyrch y gogledd, corhwyaid, hwyaid gwyllt, hwyaid copog a hwyaid llygaid aur. Yn ddiweddar, mae'r cofnodion mwy anarferol wedi cynnwys y trochydd gyddfddu a'r gorhwyaden adeinwyrdd. Mae cigfrain, bwncathod a'r barcud coch yn gwibio uwch ben yn rheolaidd hefyd, ac mae gwylanod yn ymgasglu ar wyneb y dŵr.

**Ar y tir...**
Mae glannau Llyn Eiddwen yn gartref o hyd i'r llygoden ddŵr sydd dan fygythiad yn genedlaethol ac sydd wedi dirywio'n ddramatig yn y DU yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf. Mae'r llystyfiant yn bwysig hefyd gan ei fod yn cynnwys cynefinoedd amrywiol sy'n nodweddiadol o'r rhan hon o Gymru, yn cynnwys grug yr ucheldir a glaswelltir asidig. Mae'r gors, sy'n gorwedd ble mae'r dŵr yn draenio i ben gogleddol y llyn, yn cynnwys llafn y bladur a chwys yr haul. Yn draddodiadol, roedd yr ardal hon yn cael ei thorri ar gyfer mawn ac roedd gwellt y gweunydd, a arferai reoli yma, yn cael ei losgi'n rheolaidd. Yn 1963, daeth yr arfer yma i ben ac, o ganlyniad, mae'r grug wedi dod yn rhan amlycach o'r llystyfiant erbyn hyn.



The higher land around Llyn Eiddwen includes a large area of dry upland heath. Upland heath is a priority habitat in Wales, There is relatively little of this habitat in Europe as a whole, making Wales an important stronghold.

Plant species typical of this habitat and found at Llyn Eiddwen include Heather, Bell heather, Bilberry and Western gorse. As the ground gets wetter, plants like Cross-leaved heath, Purple moor-grass and Deer-grass start to appear.


In many areas of upland Wales, land like this is heavily grazed. Too much grazing by livestock tends to lead to the loss of flowering plants and the dominance of tougher grasses. However, the management of the common land around much of Llyn Eiddwen has allowed the heath vegetation to survive. Compare the rougher, richer heath habitat on the ridge with the much brighter green on the improved agricultural grasslands on the east side of the lake. The heath not only has more plant species, but also provides much better habitat for ground-nesting bird species like Meadow pipit and Skylark.

Mae'r tir uwch o amgylch Llyn Eiddwen yn cynnwys darn helaeth o rostir sych yr ucheldir. Mae rhostir yr ucheldir yn gynefin blaenoriaeth yng Nghymru. Ni cheir llawer o'r cynefin hwn yn Ewrop gyfan, ac felly mae Cymru'n gadarnle pwysig.


Ymhlith y rhywogaethau o blanhigion sy'n nodweddiadol o'r cynefin hwn ac a welir yn Llyn Eiddwen mae Grug, Grug Clochog, Llus ac Eithin y Gorllewin. Wrth i'r tir droi'n wlypach, mae planhigion fel Grug Croesddail, Gwellt y Gweunydd a Glaswellt y Ceirw'n dechrau ymddangos.

Mewn sawl ardal yn ucheldir Cymru, mae tir fel hwn yn cael ei bori'n drwm. Mae gormod o bori gan dda byw yn tueddu i arwain at golli planhigion yn blodeuo ac mae glaswelltau garwach yn rheoli. Fodd bynnag, drwy reoli llawer o'r tir comin o amgylch Llyn Eiddwen, mae llawer o lystyfiant y rhos wedi gallu goroesi. Cymharwch y cynefin rhos garwach a chyfoethocach ar y gefnen gyda'r tir llawer glasach ar ochr ddwyreiniol y llyn, sy'n dir amaethyddol wedi'i wella. Nid yn unig y ceir mwy o rywogaethau o blanhigion ar y rhos ond hefyd ceir cynefin llawer gwell yma ar gyfer y rhywogaethau o adar sy'n hoffi nythu ar y ddaear, fel Corhedydd y Waun a'r Ehedydd.






Burning Purple moor-grass
Gwellt y gweunydd yn llosgi



Bog asphodel
Llafn y bladur




Round-leaved sundew
Chwys yr haul

**Key** Allwedd

Reserve boundary Ffin y warchodfa

(P) Parking Parcio



Floating water plantain
Llyriad arnofiol y dŵr

Awlwort
Mynawydlys dyfrdrig